

NODYN DATA – GWIRIO DATA ROWND 1

Gwirio Data Setliad Llywodraeth Leol - Medi 2019

Mae'r nodyn data hwn wedi'i greu yn unol â'r data sydd i'w wirio fel rhan o broses setliad y Grant Cynnal Refeniw 2020-21. Cynhelir y broses mewn dwy rownd. Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion am y cyfresi data sy'n rhan o'r rownd wirio **gyntaf**.

Nid pwrpas yr ymarfer gwirio data yma yw ail-edrych ar amcangyfrifon sydd wedi'u cyhoeddi eisoes ble mae'r newidiadau dan sylw yn rhai mân. Yn hytrach, pwrpas y broses yw sicrhau fod unrhyw wallau neu gywiriadau sylweddol yn y data heb fod yn ariannol yn cael eu nodi cyn cyhoeddi'r Setliad Llywodraeth Leol.

Bydd newidiadau i'r data wedi ei gyhoeddi ond yn cael eu hystyried os yw'r ystorfa ddata yn cytuno gyda'r newidiadau. Dylai unrhyw ddiwygiadau i'r data gael eu hail-gyflwyno trwy'r broses y cafodd ei ddefnyddio i gyflwyno'r data yn y lle cyntaf. Ar ôl cael cadarnhad oddi wrth yr ystorfa ddata ei bod yn briodol ddiwygio eitem o ddata, nodwch y ffigur diwygiedig ar eich ffurflen ymholiad. Rhestrir yr ystorfeydd data a chysylltiadau ar gyfer ymholiadau yn Atodiad A.

Ceisiadau Cynllunio

- [Nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd.](#)

Nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd ym mhob chwarter o fis **Ebrill** i fis **Mehefin 2018** hyd at fis **Ionawr** i fis **Mawrth 2019**. Y rhifau hyn yw'r rhai a adroddir i Lywodraeth Cymru gan awdurdodau lleol yn rhan o'r Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu.

Cliciwch ar y ddolen isod i adalw data ynglŷn â cheisiadau cynllunio. Cliciwch ar chwarter mis Ionawr i fis Mawrth 2019 yr Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu ac agorwch y ddogfen excel. Gellir dod o hyd i'r data perthnasol yn nhabl 4, colofnau C-F – Derbyniwyd o fewn y chwarter.

https://llyw.cymru/arolwg-chwarterol-rheoli-datblygu-ionawr-i-mawrth-2019?_ga=2.78812820.1875168435.1568626321-453563270.1561475882

Hyd Ffyrdd

Ar **1 Ebrill 2019**, mewn cilometrau, ar gyfer:

- **Ffyrdd Sirol A;**
- **Ffyrdd Sirol A adeiledig;**
- **Ffyrdd B a C;**
- **Ffyrdd B a C adeiledig;**
- **Is-ffyrdd ag arwyneb; a**
- **Is-ffyrdd adeiledig ag arwyneb**

o fewn ardal yr awdurdod.

Cymerir y ffigurau o'r datganiad **TP1** statudol gan bob awdurdod lleol ac maent yn ymwneud â'r ffyrdd y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt.

Yr hyd ffyrdd y dylai fod wedi eu cynnwys yw: yr hydau hynny a ddosberthir gan Ddatganiad Ffurfiol neu Orchymyn Cefnffordd; dim ond priffyrdd sydd i'w cynnal a'u cadw ag arian cyhoeddus (fel y diffinnir yn Adran 36 o Ddeddf Priffyrdd 1980); dim ond yr hyd ffyrdd hynny sy'n ffisegol o fewn ffin yr Awdurdod Lleol, h.y. nid yr hydau hynny mewn awdurdod cyfagos a gynhelir yn rhan o gytundeb â'r awdurdod hwnnw.

Ni ddylid cynnwys y canlynol; isffyrdd heb arwyneb, llwybrau cerdded ar wahân sydd ag arwyneb(ardaloedd adeiledig), Cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOAT), llwybrau ceffylau, llwybrau cerdded neu llwybrau beicio a adeiladwyd yn bwrpasol. Os yw'r wybodaeth ar gael, dylai gael ei fewnbynnu ar wahân i'r manau a neilltuir. Dylai unrhyw Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus (RUPP) nad ydynt wedi'u hailddosbarthu, gael eu cynnwys gyda'r cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOAT).

Dylai hyd ffordd ddeuol gynnwys hyd y llwybr nid hyd y gerbyttffordd. Priffordd sy'n ddarostyngedig i derfyn cyflymder o naill ai 30mya neu ddim mwy na 40mya yw ffordd adeiledig.

Gellir dod o hyd i'r data hwn ar offeryn lledaenu ystadegol Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru – Stats Cymru – y gellir cael gafael arno drwy ddilyn y ddolen isod:

<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Transport/Roads/Lengths-and-Conditions/roadlength-by-typeofroad-localauthority-year>

Llif Traffig

- [Traffig ffordd ar briffyrdd \(cilometrau cerbyd\)](#)

Darperir y ffigurau'n ganolog gan yr Adran Drafndiaeth ar gyfer **2018**. Cesglir y ffigurau llif traffig ar sail cyfrifiadau traffig â llaw a chânt eu llywio yn ystadegol i gael y **llif mewn miliwn o gerbydau fesul cilometr**.

I gael y manylion cyswllt, gweler Atodiad A.

Anheddau

- [Amcanestyniadau Stoc Anheddau'r Sector Preifat](#)

Nifer yr anheddau yn 2016-17 sy'n eiddo i berchen-feddianwyr, yn cael eu rhentu'n breifat, daliadaethau canolradd neu eraill.

Gellir dod o hyd i'r data hwn ar offeryn lledaenu ystadegol Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru – Stats Cymru – y gellir cael gafael arno drwy ddilyn y ddolen isod:

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Dwelling-Stock-Estimates/DwellingStockEstimates-By-LocalAuthority-Tenure>

Ar ôl gweld y tabl, gallwch lywio'r adroddiad i ddangos y flwyddyn a'r ddaliadaeth berthnasol. Daw'r ffigurau o Ddeiliadaeth '**yn eiddo i berchen-feddianwyr/wedi'i rentu'n breifat**'.

Arwynebedd tir

- [Arwynebedd tir mewn Hectarau](#)

Arwynebedd y tir sy'n uwch na'r marc penllanw ym mhob awdurdod mewn hectarau (**ar 1 Mai 2019**). Cyfrifir y data gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio Llinell Ffin yr Arolwg Ordnans (O.S.).

Mae O.S. yn cyfrifo arwynebedd marc penllanw isel pob Awdurdod Lleol, ac yn darparu ffigur ar gyfer yr arwynebedd rhynglanwol nad yw'n fewndirol. Mae'r tîm cartograffig wedyn yn tynnu ffigur yr arwynebedd nad yw'n fewndirol o'r marc penllanw isel, i roi'r **Cyfanswm Arwynebedd Tir mewn hectarau ar gyfer pob Awdurdod Lleol**.

Amcanestyniadau Poblogaeth

Amcanestyniad o'r boblogaeth breswyl ar 30 Mehefin 2018

- **Cyfanswm poblogaeth**
- **18 oed a hŷn**
- **65 oed a hŷn**

Mae amcanestyniadau'r boblogaeth breswyl ar **30 Mehefin 2018 (poblogaeth canol blwyddyn 2018)**, yn seiliedig ar amcanestyniadau canol blwyddyn y Cofrestrwydd Cyffredinol ar 30 Mehefin 2018, yn seiliedig ar Gyfrifiad Poblogaeth 2011. Mae'r cyfrifiadau hyn wedi'u haddasu i leoli myfyrwyr yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor, a chaniatáu ar gyfer tangyfrifo yn y cyfrifiad. Mae'r cyfrifiadau diwrnod y cyfrifiad hyn wedi'u diweddarau i adlewyrchu genedigaethau, marwolaethau, ymfudo amcangyfrifedig a'r boblogaeth heneiddio, hyd at 30 Mehefin 2018.

Ceir ystadegau genedigaethau a marwolaethau o'r system gofrestru genedlaethol. Daw ystadegau ymfudo o ddangosyddion procsi. Gwneir amcanestyniadau o ran ymfudo o fewn y DU gan ddefnyddio ailgofrestriadau cleifion â meddygon teulu. Cymharir cyfeiriadau preswyl cleifion ar gofrestri Bwrdd Iechyd Lleol mewn dwy flynedd olynol er mwyn nodi'r rhai hynny sydd wedi newid cyfeiriad preswyl yn dilyn symud sy'n cynnwys newid mewn ardal breswyl o ran awdurdod lleol.

Amcanestynir ymfudo rhyngwladol mewn dau gam. Gwneir amcanestyniadau yn gyntaf ar lefel Bwrdd Iechyd Lleol. Rhennir y rhain wedyn o fewn ardaloedd Bwrdd Iechyd Lleol ar sail ymfudwyr rhyngwladol a ymfudodd i mewn yn y cyfrifiad diwethaf ar sail maint y boblogaeth ar gyfer ymfudo allan. Mae amcanestyniadau'r boblogaeth breswyl yn cynnwys y rhai hynny sydd wedi cyrraedd yn y wlad yn ddiweddar i wneud cais am loches.

Cliciwch ar y ddolen isod i adalw data o wefan StatsCymru, Llywodraeth Cymru. Mae'r data yn dangos pob oedran ond gellir ei drin mewn nifer o ffyrdd i adalw'r data sy'n ofynnol.

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/PopulationEstimates-by-LocalAuthority-Year>

Swm a wariwyd ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi'i gwblhau

- [Swm a wariwyd ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gorfodol wedi'i gwblhau yn ôl ardal \(£\)](#)

Cyfeiria'r ffigurau at wariant awdurdodau lleol o ran gwaith sydd wedi'i **gwblhau yn unig**. Mae'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn grant ar gyfer darparu gwasanaethau i unigolyn anabl naill ai mewn annedd neu mewn rhannau cyffredin o adeilad sy'n cynnwys un neu fwy o fflatiau. Telir Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gan yr awdurdod lleol a gall gyfrannu tuag at y gost o addasu cartref i alluogi unigolyn anabl i barhau i fyw yno. Cesglir y data gan gasgliad data blynyddol Grant Cyfleusterau i'r Anabl, ac mae'n cynnwys grantiau cyfleusterau i'r anabl wedi'u cwblhau yn unig, ac yn eithrio cymorth grant cyfleusterau i'r anabl ychwanegol nad yw'n orfodol.

Cliciwch ar y ddolen isod i adalw data o wefan Stats Cymru, Llywodraeth Cymru. Mae'r tabl yn dangos pob math o grantiau a blynyddoedd ond gellir ei drin mewn nifer o ffyrdd i adalw'r data sy'n ofynnol.

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Disabled-Facilities-Grants/DisabledFacilitiesGrants-by-Area-GrantType>

Ardollau'r Asiantaeth Amgylcheddol a'r Bwrdd Draenio Mewnol

- [Taliadau amddiffyn rhag llyfogydd i Fyrddau Draenio Mewnol](#)

Cymerir ardollau arbennig sy'n daladwy yn 2019-2020 i'r byrddau draenio mewnol, o ran IX o Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Draenio Mewnol ar gyfer **y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2019** a ddarperir i Lywodraeth Cymru.

Nid yw'r data hwn ar gael ar y rhyngwyd. I gael manylion cyswllt gweler Atodiad A

Arfordir

- [Hyd yr arfordir a amddiffynnir yn artiffisial](#)

Dyma hyd yr arfordir lle y cynhaliwyd gwaith cyfalaf o dan Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949 neu ddeddfwriaeth debyg ac a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar **1 Ebrill 2019**. Daw'r ffigurau o Arolwg Arfordirol Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r data hwn ar gael ar y rhyngwyd. I gael manylion cyswllt, gweler Atodiad A.

Ffermydd

- [Nifer y prif ddaliadau sy'n economaidd weithgar](#)

Nifer y prif ddaliadau sy'n economaidd weithgar ym **Mehefin 2018**. Daw'r data o'r Arolwg Amaethyddol blynyddol a gynhelir ym mis Mehefin.

Pan nad yw daliad yn cael ei samplu neu nad yw'n ymateb, mewnbynnir data ar gyfer y daliad hwnnw yn seiliedig ar ddata a arsylwyd yn flaenorol ar ei gyfer a chymhwysio tuedd

a arsylwyd ar gyfer y gwerth hwnnw yn seiliedig ar ddaliadau sydd wedi ymateb. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am hyn o Arolwg Amaethyddol a Garddwriaethol mis Mehefin 2018:

https://llyw.cymru/arolwg-or-cyfrifiad-amaethyddol-garddwrol-mehefin-2018?_ga=2.53604648.1875168435.1568626321-453563270.1561475882

Nid yw'r data hwn yn y fformat a ddarperir ar gael ar y rhyngwrwd. I gael manylion cyswllt, gweler Atodiad A.

Eiddo Bwyd a Masnach

- [Eiddo Masnachu](#)

Dyma nifer yr eiddo masnachu fel y'i cofnodwyd ar **31 Mawrth 2019** ac fel y'i darparwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae'n cynrychioli nifer yr eiddo masnachu ardrethol (heredimentau). Mae hynny'n golygu bod yr eiddo hyn yn agored i orfod talu ardrethi annomestig ac felly maent yn ymddangos mewn rhestr ardrethi lleol. Maent yn cynnwys eiddo masnachol, diwydiannol a hamdden. Mae'r data hyn yn cael eu talgrynnu i'r 10 uned agosaf.

- [Eiddo Bwyd](#)

Dyma nifer yr eiddo bwyd fel y'i cofnodwyd ar **31 Mawrth 2019** ac fel y'i darparwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae'n cynrychioli nifer yr eiddo bwyd ardrethol (heredimentau). Mae hynny'n golygu bod yr eiddo hyn yn agored i orfod talu ardrethi annomestig ac felly maent yn ymddangos mewn rhestr ardrethi lleol. Mae'r data hyn yn cael eu talgrynnu i'r 10 uned agosaf.

I gael rhagor o wybodaeth am ddiffiniadau a methodoleg, darllenwch y ddogfen ganlynol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio:

<https://www.gov.uk/government/organisations/valuation-office-agency>

Unedau Goleuadau Stryd

- [Cyfanswm yr unedau goleuadau stryd](#)

Mae cyfanswm yr unedau goleuadau stryd (fel yr oedd ar **1 Ebrill 2019**) yn cynrychioli nifer y "llusernau", sef yr elfen sy'n cynnwys yr adlewyrchyd a'r lampau, fel y'i casglwyd oddi wrth awdurdodau lleol gan dîm Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru.

Mae'n cynnwys goleuadau ar bob ffordd sydd wedi ei mabwysiadu gan yr awdurdod lleol; a goleuadau stryd sydd wedi eu gosod ar strwythurau eraill megis adeiladau, lle diben y lamp yw goleuo'r briffordd/stryd, yn ogystal â lampau mewn twneli priffyrdd. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys bolardiau traffig nac arwyddion ffyrdd sydd wedi eu goleuo.

Nid yw'r data hyn ar gael ar y rhyngwrwd. Mae manylion cyswllt ar gael yn Atodiad A.

Marwolaethau

- [Nifer y marwolaethau, o bob achos, sydd wedi eu cofrestru](#)

Dyma nifer y marwolaethau, o bob achos, a gofrestrwyd yn **2018** (Tabl 3 '*Deaths by local authority of usual residence, numbers and standardised mortality ratios (SMRs) by sex, 2017 registrations*'). Mae'n bosibl nad yw'r flwyddyn pan gafodd marwolaeth ei chofrestru yn cyd-fynd â'r flwyddyn pan ddigwyddodd y farwolaeth honno. Nid yw hyn yn cael fawr o effaith ar y cyfansymiau blynyddol.

Cliciwch ar y ddolen isod i gael y set ddata o wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Cewch hyd i'r data drwy glicio ar '**Death Registration Summary Tables - England and Wales**', ac yna clicio ar y daenlen o dan 2018 (Taflen Excel 333.8Kb). Ewch i Dabl 3: *Deaths by local authority of usual residence (all persons)*, a dechreuwch yn rhes 433 a cholofn C.

<http://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths>

Data Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Cafodd y data hyn eu casglu'n uniongyrchol oddi wrth Awdurdodau Unedol yn ystod 2016 gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cyllid Gweithredol yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf. Mae'r data hyn ar gyfer y cyfnod hyd at **31 Mawrth 2019**, a rhaid iddynt gynrychioli'r llwyth achosion a'r gwariant alldro terfynol ar gyfer 2017/18.

- **Gwariant Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

O ran gwefannau sy'n defnyddio system Capita, dylech ddychwelyd cell HB9646 – *CTS Expenditure Report*.

O ran gwefannau sy'n defnyddio system Northgate, dylech ddychwelyd cell RRV403 - *Control Account Summary*.

- **Llwythi Achosion Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

O ran gwefannau sy'n defnyddio system Capita, dylech ddychwelyd cell HB9644 - *CTS Caseload Report*. O ran gwefannau sy'n defnyddio system Northgate, dylech ddychwelyd cell CTR304 - *CTR Caseload Extract*.

Llongau

- [Llongau sy'n cyrraedd porthladdoedd yn 2019.](#)

Darperir y data gan Uned Gwybodaeth Forol Lloyd's, a chan borthladdoedd unigol ar gyfer y llongau nad ydynt yn cael eu cyfrif gan Lloyd's (sef gwasanaethau fferi rheolaidd yn bennaf).

Wrth gofnodi llongau sy'n cyrraedd, cyfeirir at symudiadau gan longau 100 o dunelli gros a throsgodd. Mae'r data'n cynnwys teithiau sy'n cael eu gwneud dro ar ôl tro gan yr un llong sy'n cyrraedd porthladd, p'un a yw hynny ar gyfer llwytho neu ddadlwytho cargo. Nid yw'r data'n cynnwys llongau sy'n cyrraedd angorfeydd diogel (oherwydd tywydd drwg neu i gael cyfarwyddiadau ynghylch llwytho neu ddadlwytho cargo rywle arall). Nid ydynt chwaith yn cynnwys llongau sy'n symud o fewn ffiniau porthladd neu aber, megis y Solent.

Nid yw'r llongau canlynol yn cael eu cynnwys yn yr ystadegau ychwaith:

- llongau rhyfel a llongau sy'n cludo nwyddau ar gyfer adrannau'r llywodraeth
- cychod tynnu a llongau eraill sy'n cael eu defnyddio o fewn ffiniau'r porthladd neu'r aber
- llongau carthu, llongau cyflenwi a llongau cymorth eraill, a llongau ymchwil
- llongau pysgota; llongau pleser
- llongau sy'n dod i mewn i borthladd er mwyn i aelod o'r criw sydd wedi ei anafu, neu sy'n sâl, ddod oddi ar eu bwrdd (lle gwyddys am yr achosion hyn).

Rhaid bod llongau cynwysyddion yn gyfan gwbl gellog cyn y gellir eu cofnodi fel llongau cynwysyddion. Mae llongau eraill sy'n cludo cynwysyddion yn cael eu cofnodi fel '*Other dry cargo vessels*' neu '*Ro-Ro vessels*' fel y bo'n briodol. Mae'r data hyn ar gael ar y rhynggrwyd ar wefan Ystadegau'r Llywodraeth. Mae'r Tabl PORT0602 yn nodi'r data ar gyfer holl borthladdoedd y DU, a chewch ei lawrlwytho o'r wefan ganlynol:

<https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/port06-uk-ship-arrivals>

Ymwelwyr

- [Nifer y diwrnodau a nosweithiau twristiaid](#)

Y cwmni Global Tourism Solutions (UK) Ltd ddarparodd nifer y diwrnodau a nosweithiau twristiaid ar gyfer **2018**, drwy ddefnyddio dull Monitor Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough (STEAM). Caiff yr wybodaeth hon ei chynhyrchu o fanylion y stoc o welyau mewn ardal leol, a chafwyd y manylion hynny o'r rhestri llety sy'n cael eu cadw gan y Bwrdd Twristiaeth Cenedlaethol neu Ranbarthol.

O ran y bobl sy'n ymweld am ddiwrnod, caiff rhestri cynhwysfawr eu llunio drwy nodi'r holl atyniadau a digwyddiadau twristiaeth y gwyddys amdanynt, gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon a gwyliau. Mae'r ffigurau ar gyfer ymwelwyr yn cael eu darparu gan awdurdodau twristiaeth neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau a chlybiau. Hefyd defnyddir data am draffig ac arolygon y gorffennol, gan eu cymharu ag arolygon tebyg mewn manau eraill.

Nifer yr Hawlwyr Budd-dal Diweithdra

- [Nifer yr Hawlwyr yn ystod yr 11 mis diweddaraf* \(Hydref 2018 hyd at Awst 2019\)](#)

Nod yr ymarfer hwn yw cyfrif nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau am eu bod yn ddi-waith yn bennaf. I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

<https://www.nomisweb.co.uk/default.asp>

Mae Atodiad A yn egluro sut i gael gaffael ar ddata ymarfer yr 11 mis diweddaraf ar gyfer Nifer yr Hawlwyr Budd-dal Di-waith oddi wrth NOMIS, sef gwasanaeth yr ONS sy'n darparu'r ystadegau diweddaraf ar farchnad lafur y DU.

*Ni fydd data Medi 2019 ar gael adeg cam gwirio data cylch 2.

Hawlwyr Budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

Hawlwyr Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Credydau Pensiwn ac unigolion sydd ar Gredyd Cynhwysol (nad ydynt mewn cyflogaeth)

- [Nifer yr Hawlwyr Cymhorthdal Incwm, Derbynwyr Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm, Hawlwyr Credydau Pensiwn, 18-64 oed](#)

Mae'r ffigurau yn deillio yn ganolog gan DWP o sampl o 100% o gofnodion hawlwyr ar gyfer cymhorthdal incwm a chredydau pensiwn a sampl o 5% ar gyfer lwfans ceisio gwaith a maent yn berthnasol i'r pedwar chwarter o fis **Mai 2018** hyd at fis **Chwefror 2019**. Data wedi'i gaffael drwy NOMIS a Stat-Xplore.

- [Nifer yr unigolion ar Gredyd Cynhwysol \(nad ydynt mewn Cyflogaeth\), 18-64 oed](#)

Mae ffigurau yn deillio yn ganolog gan DWP o sampl o 100% o gofnodion hawlwyr Credyd Cynhwysol (nad ydynt mewn cyflogaeth) a maent yn berthnasol i'r pedwar chwarter o fis **Mai 2018** hyd at fis **Chwefror 2019**. Data wedi'i gaffael drwy Stat-Xplore.

- [Nifer yr Hawlwyr Credyd Pensiwn 65+ oed](#)

Mae'r ffigurau yn deillio yn ganolog gan DWP o sampl o 100% o gofnodion hawlwyr a maent yn berthnasol i'r pedwar chwarter o fis **Mai 2018** hyd at fis **Chwefror 2019**. Data wedi'i gaffael drwy

NOMIS a Stat-Xplore.

- [Cyfanswm Nifer yr Hawlwyr Cymhorthdal Incwm, Derbynwyr Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm, Hawlwyr Credydau Pensiwn neu unigolion ar Gredyd Cynhwysol \(nad ydynt mewn Cyflogaeth\)](#)

Mae'r ffigurau yn deillio yn ganolog gan DWP o sampl o 100% o gofnodion hawlwy'r ar gyfer cymhorthdal incwm a chredydau pensiwn a sampl o 5% ar gyfer lwfans ceisio gwaith a maent yn berthnasol i'r pedwar chwarter o fis **Mai 2018** hyd at fis **Chwefror 2019**. Data wedi'i gaffael drwy NOMIS a Stat-Xplore.

- [Cyfanswm nifer yr unigolion ar Gredyd Cynhwysol \(nad ydynt mewn Cyflogaeth\)](#)

Mae'r ffigurau yn deillio yn ganolog gan DWP o sampl o 100% o gofnodion hawlwy'r Credyd Cynhwysol (nad ydynt mewn cyflogaeth) a maent yn berthnasol i'r pedwar chwarter o fis **Mai 2018** hyd at fis **Chwefror 2019**. Data wedi'i gaffael drwy Stat-Xplore.

I gael gwybodaeth sut i gael data DWP o wefan rhannu data NOMIS, <https://www.nomisweb.co.uk/Default.asp>, ewch i Atodiad B.

I gael gwybodaeth sut i gael data DWP o wefan rhannu data Stat-Xplore, <https://sw.stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/login.xhtml>, ewch i Atodiad B.

Hawlwy'r Lwfans Anabledd Difrifol neu Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Personol

- [Nifer yr Hawlwyr Lwfans Anabledd Difrifol neu Lwfans Byw i'r Anabl, 18-64 oed](#)

Mae'r ffigurau'n cael eu casglu a'u caffael gan DWP o sampl o 100% o gofnodion hawlwy'r a maent yn berthnasol i'r pedwar chwarter o fis **Mai 2018** hyd at fis **Chwefror 2019**. Data wedi'i gaffael drwy Stat-Xplore.

- [Nifer yr Hawlwyr Taliad Annibyniaeth Personol, 18-64 oed](#)

Mae'r ffigurau'n cael eu casglu a'u caffael gan DWP o sampl o 100% o gofnodion hawlwy'r a maent yn berthnasol i'r pedwar chwarter o fis **Mai 2018** hyd at fis **Chwefror 2019**. Data wedi'i gaffael drwy Stat-Xplore.

I gael gwybodaeth sut i gael data DWP o wefan rhannu data Stat-Xplore, <https://sw.stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/login.xhtml>, ewch i Atodiad B.

Anheddau

- [Cyfanswm yr anheddau – Nifer yr anheddau yn ôl Bandiau'r Dreth Gyngor ac ardaloedd gweinyddol yng Nghymru](#)

Asiantaeth y Swyddfa Brisió sy'n darparu'r ffigurau ar gyfer nifer yr hereditamentau domestig. Mae'r data hyn yn cael eu talgrynnu i'r 10 uned agosaf, ac mae i'w gweld drwy glacio ar y ddolen isod, ac edrych o dan Dabl CTSOP1.0: *Number of properties by Council Tax band and region, county and local authority district* fel yr oedd ym mis **Ebrill 2019**.

<https://www.gov.uk/government/statistics/council-tax-stock-of-properties-2019>

Ystorfa Ddata

Ceisiadau Cynllunio - Kris.Hawkins@llyw.cymru

Hyd ffyrdd – Stats.Transport@llyw.cymru

Llif traffig – Stats.Transport@llyw.cymru

Arwynebedd Tir – David.Roberts10@llyw.cymru

Tai – Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (GCF) - Stats.Housing@gov.wales

Praeseptau Draenio Tir – Lowri.Norrington-Davies@llyw.cymru

Yr Arfordir - FloodCoastalRisk@llyw.cymru

Ffermydd – stats.agric@llyw.cymru

Eiddo Bwyd a Masnachu –Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol -
LGFPSettlement@llyw.cymru

Unedau Goleuadau Stryd – LGFPSettlement@llyw.cymru

Data Marwolaethau – Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) - mortality@ons.gov.uk

Data Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – Is-adran Polisi Trethi Lleol Llywodraeth Cymru -
LocalTaxationPolicy@llyw.cymru

Llongau sy'n cyrraedd porthladdoedd – Cangen Ystadegau Morol yr Adran Drafnidiaeth -
MARITIME.STATS@dft.gsi.gov.uk

Data Twristiaeth – Global Tourism Solutions (UK) Ltd - cj.gtsuk@btinternet.com

Data ar Nifer yr Hawlwyr Budd-dal Diweithdra – NOMIS – ystadegau swyddogol ar gyfer y farchnad
lafur - <https://www.nomisweb.co.uk/>

Data Hawlwyr Budd-daliadau – yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) - <https://stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/login.xhtml>

Pob Ymholiad Arall – LGFPSettlement@gov.wales

ATONIAD B

Sut i gael data DWP ar Nifer yr Hawlwyr Budd-dal Diweithdra (dros gyfnod o 11 mis) o NOMIS

Ewch i'r wefan: www.nomisweb.co.uk a chlicio ar '*Data Downloads*' a '*Query data*'.

Dewiswch '*claimant count*', '*claimant count by sex and age*'

- Daearyddiaeth:
 - Cliciwch ar '*geography*' yn y ddewislen ar y chwith
 - Yna cliciwch ar '*local authorities: county / unitary (as of April 2015)*' a dewiswch '*Wales*' yn y gwymplen a dewis '*tick all*'
 - Dewiswch flwch yr awdurdod yr ydych chi am weld data ar ei gyfer
- Dyddiad:
 - Dewiswch '*date*' yn y ddewislen ar y chwith
 - Dewiswch bob dyddiad fel pwynt dechrau a phwynt dod i ben. Dewiswch '**October 2018**' fel dyddiad dechrau a '**August 2019**' fel dyddiad dod i ben.
- Oedran:
 - Cliciwch ar '*user defined*', a dewis '*16 plus*'.

Lawrlwythwch y data a'u hagor er mwyn eu gweld.

Sut i gael data Credyd Cynhwysol (nad ydynt mewn cyflogaeth) o Stat-Xplore

Yn gyntaf, ewch i'r wefan: <https://stat-xplore.dwp.gov.uk/>, a chofrestru i greu cyfrif a mewngofnodi. Fel arall, dewiswch '*guest log in*'.

Cliciwch ar '*People on Universal Credit*' o dan y categori Credyd Cynhwysol ac yna dewis '*new table*'.

Yn y panel ar y chwith:

- Dewiswch '*Month*' fel bod yr opsiynau yn dod i'r golwg a thynnwch y ticiau wrth y misoedd sydd wedi'u dewis eisoes, yna dewiswch y misoedd '**May 2018**', '**August 2018**', '**November 2018**' a '**February 2019**' a chlicio '*add to column*' (yn y blwch glas ar y chwith ar frig y sgrin).
- Dewiswch '*geography (residence-based)*' fel bod yr opsiynau yn dod i'r golwg ac yna '*National, regional - LA - OAs*' a chliciwch ar bob ffolder nes ichi ddod at '*Wales [22]*' a chlicio ar eich awdurdod lleol. Cliciwch ar '*add to row*' (yn y blwch glas ar y chwith ar frig y sgrin).
- Dewiswch '*age (bands and single year)*' a dewiswch y bandiau oedran perthnasol, hynny yw '*18 to 64*' neu '*all ages*'. Cliciwch ar '*add to Wafer*' (yn y blwch glas ar y chwith ar frig y sgrin). Bydd yna gwymplen wafer uwchben adran y misoedd, tu fewn y box hwn cliciwch '*Total*'.
- Dewiswch '*employment indicator*' a dewis '*Not in employment*'. Cliciwch ar '*add to Filter*' (yn y blwch porffor ar y chwith ar frig y sgrin).

Ewch i '*download table*' ar frig y sgrin ar y dde, dewiswch '*excel 2007*' ac wedyn clicio ar '*Go*' ac '*open*' i edrych ar y data yr ydych wedi eu lawrlwytho. Ar ôl lawrlwytho, fydd yna tab ar wahân ar gyfer pob wafer oed, fydddech chi ond angen defnyddio y tab cyfanswm (y tab olaf).

Sut i gael data Taliad Annibyniaeth Personol o Stat-Xplore

Yn gyntaf, ewch i'r wefan: <https://stat-xplore.dwp.gov.uk/> a chofrestru i greu cyfrif a mewngofnodi.

Fel arall, dewiswch 'guest log in'.

Cliciwch ar '*PIP Claims in Payment*' o dan y categori Taliad Annibyniaeth Personol ac yna dewis 'new table'.

Yn y panel ar y chwith:

- v) Dewiswch '*Month*' fel bod yr opsiynau yn dod i'r golwg a thynnwch y ticiau wrth y misoedd sydd wedi'u dewis eisoes, yna dewiswch y misoedd '**May 2018**', '**August 2018**', '**November 2018**' a '**February 2018**' a chlicio '*add to column*' (yn y blwch glas ar y chwith ar frig y sgrin)
- vi) Dewiswch '*geography (admin based)*' fel bod yr opsiynau yn dod i'r golwg ac yna '*Country - Region - Local Authority*' a chliciwch ar bob ffolder nes ichi ddod at '*Wales [22]*' a chlicio ar eich awdurdod lleol. Cliciwch ar '*add to row*' (yn y blwch glas ar y chwith ar frig y sgrin).
- vii) Dewiswch '*age (bands and single year)*' a dewiswch y bandiau oedran perthnasol. Bydd angen ichi ehangu bandiau '*16-19*' a '*60-65*' cyn ichi allu gweld a dewis yr oedran '*18 to 64*'. Cliciwch ar '*add to column*' (yn y blwch glas ar y chwith ar frig y sgrin).

Ewch i '*download table*' ar frig y sgrin ar y dde, dewiswch '*excel 2007*' ac wedyn clicio ar '*Go*' ac '*open*' i edrych ar y data yr ydych wedi eu lawrlwytho. Ar ôl lawrlwytho, fydd yna tab ar wahân ar gyfer pob wafer oed, fydddech chi ond angen defnyddio y tab cyfanswm (y tab olaf).

Wedi i un o'r setiau data gael ei dewis, bydd modd teilwra'r data at eich anghenion drwy ddefnyddio'r opsiynau ar y chwith. I gael y gwerth ar gyfer pob dangosydd rhaid adio'r ffigurau o 2 neu 3 set ddata at ei gilydd fel a eglurir isod.

Sut i gael Data Hawlwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) o NOMIS

Ewch i'r wefan: www.nomisweb.co.uk a chlicio ar '*Data Downloads*' a '*Query data*'.

Dewiswch y ffolder '*DWP Benefits*' drwy glicio arni. Bydd yr holl ddata yn cael eu tynnu o'r fan hyn. Tu fewn y ffolder hon, maw yna ffolder ychwanegol: "*5% sample data*" – lle caiff ffeindio'r data Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm.

Y Setiau Data a Ddefnyddir:

1. Lwfans Ceisio Gwaith¹ – [data taliadau budd-dal 5% - lwfans ceisio gwaith](#)

Opsiynau Cyffredinol:

Dylid gosod yr opsiynau canlynol yn yr un modd wrth lawrlwytho pob set ddata:

- Daearyddiaeth:
 - Cliciwch ar '*geography*' yn y ddewislen ar y chwith
 - Yna cliciwch ar '*local authorities: county / unitary (prior to April 2015)*' a dewiswch '*Wales*' yn y gwymplen
 - Dewiswch flwch yr awdurdod yr ydych chi am weld data ar ei gyfer
- Dyddiad:
 - Dewiswch '*date*' yn y ddewislen ar y chwith
 - Dewiswch bob dyddiad fel pwynt dechrau a phwynt dod i ben. Dewiswch '**May 2018**' fel dyddiad dechrau a '**Feb 2019**' fel dyddiad dod i ben.
- Gosod Grwpiau Oedran Penodol:

Ar gyfer dangosyddion gyda grwpiau oedran penodedig, rhaid ichi greu'r grŵp oedran eich hun fel a ddisgrifir isod:

¹Mae data sampl o 5% yn cael eu defnyddio oherwydd nid oes dadansoddiad yn ôl Lwfans Ceisio Gwaith "Seiliedig ar Incwm" ar gael ar gyfer data 100%.

- Cliciwch ar 'age' yn y gwymplen ar y chwith.
 - O dan y pennawd hwn, cliciwch ar 'user defined', yna ar 'create your own age'
 - Dewiswch bob blwch sy'n dod o dan y grŵp oedran gofynnol a cliciwch 'next>'
 - Rhowch enw priodol ar gyfer y grŵp oedran penodedig ac yna cliciwch ar 'finish'
 - Noder: peidiwch byth â dewis y blwch "unknown age" ar gyfer grwpiau oedran penodedig.
- Newidyn
 - Cliciwch ar yr opsiwn "variable" ar y chwith, dad-ddewiswch "people claiming benefit" a dewiswch "people receiving payment (income based only)".

Sut i gael Data Hawlwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) o Stat-xplore

Tydi'r holl data hawlwy'r DWP ddim ar gael ar Nomis, ac o hyn ymlaen bydd dim ond ar gael ar stat-xplore.

Y Setiau Data a Ddefnyddir:

1. Cymhorthdal Incwm – 'income support'
2. Credydau Pensiwn – 'pension credits from May 2018'
3. Lwfans Anableded Difrifol – 'incapacity benefit and severe disablement allowance'
4. Lwfans Byw i'r Anabl – 'Disability Living Allowance: Entitled Cases – data from May 2018'

Yn gyntaf, ewch i'r wefan <https://stat-xplore.dwp.gov.uk/> a chofrestru i greu cyfrif a mewngofnodi. Fel arall, dewiswch 'guest log in'.

Opsiynau:

Dylid gosod yr opsiynau canlynol yn yr un modd wrth lawrlwytho pob set ddata:

- Cliciwch ar enw y tabl, fel y nodir uchod, a ddewiswch 'new table'.

Dewiswch y canlynol yn y panel ar y chwith:

- Dewiswch 'Month' fel bod yr opsiynau yn dod i'r golwg a thynnwch y ticiau wrth y misoedd sydd wedi'u dewis eisoes, yna dewiswch y misoedd '**May 2018**', '**August 2018**', '**November 2018**' a '**February 2019**' a chlicio 'add to column' (yn y blwch glas ar y chwith ar frig y sgrin).
- Dewiswch 'geography (residence-based)' fel bod yr opsiynau yn dod i'r golwg ac yna 'National, regional - LA - OAs' a cliciwch ar bob ffolder nes ichi ddod at 'Wales [22]' a chlicio ar eich awdurdod lleol. Cliciwch ar 'add to row' (yn y blwch glas ar y chwith ar frig y sgrin)
- Dewiswch 'age (bands and single year)' a dewiswch y bandiau oedran perthnasol, hynny yw '18 to 64' neu 'all ages'. Cliciwch ar 'add to Wafer' (yn y blwch glas ar y chwith ar frig y sgrin). Bydd yna gwymplen wafer uwchben adran y misoedd, tu fewn y box hwn cliciwch 'Total'.
- Ar gyfer y tabl "Hawlwy'r Lwfans Anableded Difrifol" bydd rhaid hefyd i chi ddewis 'Benefit Combination' a ticio 'SDA' ac 'add to filter'.

Ewch i 'download table' ar frig y sgrin ar y dde, dewiswch 'excel 2007' ac wedyn clicio ar 'Go' ac 'open' i edrych ar y data yr ydych wedi eu lawrlwytho. Ar ôl lawrlwytho, fydd yna tab ar wahân ar gyfer pob wafer oed, fydddech chi ond angen defnyddio y tab cyfanswm (y tab olaf)

Adio Setiau Data at ei gilydd i gael ffigurau'r dangosyddion:

Dylai fod gennych 10 set ddata fel a ganlyn:

1. Cymhorthdal Incwm, 18-64 oed
2. Cymhorthdal Incwm, pob oedran
3. Cymhorthdal Incwm, 65+ oed (mae'n debygol o fod yn sero neu'n fach iawn)

4. Lwfans Ceisio Gwaith, 18-64 oed
5. Lwfans Ceisio Gwaith, pob oedran
6. Credyd Pensiwn, 60-64 oed
7. Credyd Pensiwn, pob oedran
8. Credyd Pensiwn, 65+ oed
9. Lwfans Anabledd Difrifol, 18-64 oed
10. Lwfans Byw i'r Anabl, 18-64 oed
11. Credyd Cynhwysol (nad ydynt mewn cyflogaeth), 18-64 oed
12. Credyd Cynhwysol (nad ydynt mewn cyflogaeth), pob oedran
13. Taliad Annibyniaeth Personol, 18-64 oed

Mae gwerthoedd y dangosyddion yn cael eu cyfrifo wedyn drwy adio'r data at ei gilydd fel a ganlyn:

- **Nifer yr Hawlwyr Cymhorthdal Incwm (MIG a heb fod yn MIG), Derbynwyr Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm neu Hawlwyr Credydau Pensiwn 18-64 oed**
 - Adiwch setiau data 1, 4 a 6 at ei gilydd o'r uchod.
- **Nifer yr Hawlwyr Cymhorthdal Incwm (MIG a heb fod yn MIG) neu Hawlwyr Credydau Pensiwn 65+ oed**
 - Adiwch setiau data 3 ac 8 at ei gilydd o'r uchod.
- **Cyfanswm Nifer yr Hawlwyr Cymhorthdal Incwm (MIG a heb fod yn MIG), Derbynwyr Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm neu Hawlwyr Credydau Pensiwn**
 - Adiwch setiau data 2, 5 a 7 at ei gilydd o'r uchod.
- **Nifer yr Hawlwyr Lwfans Anabledd Difrifol neu Lwfans Byw i'r Anabl, 18-64 oed**
 - Adiwch setiau data 9 a 10 at ei gilydd o'r uchod.